Pan Fyddwn Ni'n Dawnsio.

Pan fyddwn ni'n dawnsio
Wrth i ni gofleudio
Y gole'n isel, a'r miwsic tawel
Yr hafaidd awel yn ein tywys ni.

Dwy fyth am i ni frysio
Pan fyddwn ni'n dawnsio
Mae gen i awydd i fod 'dan gilydd
Byth a beunydd, yn dy freichie di.

Cred ti fi, fe fyddwn ni, gyda'n gilydd
A dawnsio wnawn, ie dawnsio wnawn
Ym mreichie'n gilydd.

Pan fydd y byd yn noswylio
A'r lleuad ddaw i oleuo
Y dydd ar fennu, rhaid cau y lleni
A thithe gen i, i gadw'r ddawns yn fyw.

h. Geraint Griffiths.